Mawrth - Ebrill 2013

# Bwletin Cysylltiadau Conwy

## Yn gwella RSPB Conwy ar gyfer pobl a natur

Bu'n sbel ers cyhoeddi ein bwletin diwethaf a mae pethau'n newid yn gyflym ar ein gwarchodfa. Rydym wedi cael cyfnod prysur o waith papur, datrys ambell i anhap technegol a wedi profi sawl cyfnod o ddisgwyl brwdfrydig!

Y fis diwethaf mae'r project wedi newid gêr! I'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â'r Ganolfan, go brin y gallech adnabod cefn y warchodfa!

Pum mlynedd o baratoi, a mae sgwâr ein pentref, Y Maes, yn ar fîn cael ei gwblhau.

Yn ystod dyddiau'r wythnos yn unig mae'r contractwyr yn gweithio. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr, Siop Goffi, cuddfannau a llwybrau y tu hwnt i safle'r Maes ar agor fel arfer. Felly peidiwch â gadael i'r peiriannau a'r hetiau melyn eich cadw draw! Mae'n ddiogel i ddod i gael cipolwg!



Llun o'r Siop Goffi a'r Wylfan, gan Alan Gray

## Diweddariadau

### Gosod system solar

Er gwaetha' tywydd gwael y gaeaf hwn, erbyn hyn mae gennym ddŵr poeth wedi'i dwymo gan yr haul, bob dydd! Rydym yn barod yn sylwi ar y gwahaniaeth yn ein biliau trydan, sy'n golygu mwy o arian ar gyfer bywyd gwyllt. Gwych!

### Gwylfan

Rydym wrthi'n adeiladu gwylfan arbennig. Fe fydd yn ofod dan do gwych, wedi'i adeiladu mewn i'r llechwedd gyda'r lagŵn yn syth o'i flaen. Bydd yn lecyn gwych i wylio bywyd gwyllt, a byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau ledled y flwyddyn.

Nid yw'n gynllun cyffredin ar unrhyw gyfrif. Bydd yr adeiladwaith gwyrdd, arbennig iawn yma wedi'i greu o fêls gwair, wedi'i rendro â chlai ar y tu mewn a chalch ar y tu allan.

Enillwyd y tendr gan gwmni o'r enw Greenbuilt y mis diwethaf. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ebrill ac wedi'i gwblhau erbyn diwedd fis Mehefin. Gweddïwch am dywydd sych!

### Maes parcio

Gwellhawyd rhan o'r maes parcio yn sylweddol dros wythnosau rhewllyd y gaeaf. Mae llawer o bobl wedi gweithio'n galed iawn dros y blynyddoedd i alluogi hyn i ddigwydd, a rydym am ddiolch yn fawr iawn iddyn nhw.

### Golygfan Y Ganol

Mae warden y warchodfa, Sarah, wedi bod yn goruchwylio gwaith adeiladu golygfan newydd ar lwybr Y Ganol. Rhoddwyd y cytundeb i J.D. Jones Contractors LTD Gwaenysgor, Rhyl. Bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth. Unwaith tyfir sgrin y gorsen, byddwn yn agor yr ardal yma i'r cyhoedd. O'r olygfan newydd yma, cawn drem ardderchog ar draws y lagŵns, a bydd posibl gweld nythod ac adar yn clwydo ond 20 medr i ffwrdd.



Mae Cysylltiadau Conwy yn fenter a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhan o brosiect strategol Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Llun o'r Maes, gan Alan Gray



# Y Maes



Y Maes fel ag yr oedd.

Tydi canolbwynt y prosiect ddim ymhell o fod wedi'i orffen, a ninnau wedi cynhyrfu'n lân! Ym mis Chwefror dechreuwyd y gwaith o drawsffurfio'r tir llwyd gwag ger y Ganolfan Ymwelwyr a'r Siop Goffi i ofod gwych i ymlacio, chwilota a chwarae.

Fe fydd Y Maes yn sgwâr pentref ar gyfer y warchodfa, ac yn rhoi cyfle i ymwelwyr gyfarfod â ffrindiau. Gall fod yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau un diwrnod ac yn lle i ymlacio a bwrw blinder ddiwrnod arall.

Rhoddwyd y gytundeb i gontractwyr tirlunio Wright Landscapes Limited o Sir y Fflint. Mae disgwyl i'r gwaith fod wedi gorffen erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Byddwn yn defnyddio deunyddiau lleol cymaint â phosib. Mae'r llwybrau, arwynebau a waliau o gerrig lleol Llanddulas ac adeiladir palmentydd o frics palmant Carreg Môn.

















Lluniau gan Laura Kudelska

I'r sawl ohonoch chi sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, cadwch olwg allan am gyfres o ffilmiau byrion yn dilyn cwrs yr ailddatblygiadau. Byddwn yn eu llwytho i'n gwefannau Facebook a Twitter. Rhoddwyd y gytundeb yma i Tape Community Music and Film o Hen Golwyn.

www.tapemusicandfilm.co.uk

## Michaela Strachan a Chris Packham, gamp i chi wneud cystal!

Rydym wrth ein bodd yn cyhoeddi mai cyflwynwyr bywyd gwyllt ifanc Cysylltiadau Conwy yw: Peter Jenkins a Efa Fitzgerald. Byddant yn ymddangos yn y ffilmiau byrion. Bydd arddangosiad olaf o'r ffilmiau yn ein lansiad Cysylltiadau Conwy, ar fis Awst 30 a 31 2013.







## Tegi

Cafodd y pridd a symudwyd oddi ar y bryncyn i greu lle ar gyfer yr wylfa newydd ei bentyrru ger Y Maes mewn tri phentwr mawr 5 troedfedd o daldra a 10 troedfedd o led. Sylwodd Charlie, un o'n haelodau staff, ei fod yn edrych fel draig.

Oriau yn ddiweddarach, roedd Gwyn, y contractwr o'r Bala, yn llusgo creigiau mawrion o amgylch y safle, ac fe anwyd 'Tegi'!

Bydd Tegi ar agor i'r plant a'r oedolion fel ei gilydd ei fwynhau yn gynnar yn yr haf.

Mae grŵp y Fforwyr Bywyd Gwyllt yma yn hadu Tegi gyda glaswellt

## Gwaith celf serameg i'r safle digwyddiadau

Rydym yn ffodus iawn o gael gweithio gyda artist lleol, Sue King, i greu tamaid celf deniadol ar gyfer canolbwynt safle digwyddiadau, sy'n rhan o'r Maes. Mae Sue yn cynnal gweithdy serameg gyda grŵp Back Stage Youth Group, Hen Golwyn y mis hwn. Bydd y gwaith hwn gan y bobl ifanc yn cael ei ddefnyddio i greu'r cerflun gorffenedig. Bydd Sue yn gwirfoddoli ei hamser i orffen y cerflun a fydd wedi ei osod i'r llawr. Hoffem ddiolch o galon i Sue ac i griw Back Stage Youth Group. Mwy am hyn yn y bwletin nesaf.





## Gwaith celf y Gylchfan

Mae'r panel celf wedi dewis cerflun gan artist Giovanni Jacovelli, sy'n byw yn Dolgarrog. Cyflwynwyd y cais cynllunio am y cerflun hwn ym mis Ionawr. Croeswch eich bysedd! Mwy am hyn yn y bwletin nesaf.

## Murlun cuddfan Tal y Fan

Gwobrwywyd Richard Hackett, artist leol o Fae Colwyn, y cytundeb i baentio murlun newydd ar gyfer ein cuddfan poblogaidd, Tal y Fan. Bydd gorchuddiad newydd, trawiadol ar gyfer y llawr hefyd yn cael ei osod. Bydd rhaid i chi ymweld â ni i weld beth ydi o!



# Digwyddiadau i ddod...

## Helfa Wyau Pasg

A allwch ein helpu i ddarganfod yr wyau mae Cwningen y Pasg wedi'u cuddio o amgylch y warchodfa? Gwisgwch yn gynnes ac fe awn ni i chwilio amdanyn nhw! Yn addas ar gyfer plant o 3 i 8.

### Dydd Sul 31 Mawrth,

11yb - 12yh a 2yh - 3yh

Pris: Fforwyr Bywyd Gwyllt £4, heb fod yn aelod £6. I archebu gyda cherdyn credyd, ffoniwch y warchodfa; neu archebwch yn y Ganolfan Ymwelwyr. Archebu'n hanfodol.





## Taith gerdded Saib i Anadlu

Cyfres newydd sbon o bedair taith gerdded (gwanwyn, haf, hydref a gaeaf), yn canolbwyntio ar ddefnyddio amgylchfyd naturiol y warchodfa fel modd i ymlacio. Bydd y daith yn cynnwys ymarferion anadlu a myfyrio syml. Nid oes angen profiad blaenorol.

### Sesiwn y gwanwyn: Dydd Sul 12 Mai,

11yb - 1yh

### Sesiwn yr haf: 23 Mehefin,

11yb - 1yh

Pris: Aelodau'r RSPB £2, ddim yn aelod £4. I archebu gyda cherdyn credyd, ffoniwch y warchodfa; neu archebwch yn y Ganolfan Ymwelwyr. Archebu'n hanfodol.

Edrychwch ar ein gwefan am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau.



## Marchnad Ffermwyr Conwy

Profwch siopa bwyd mwy personol a chefnogwch eich cynnyrch lleol.

### Dydd Mercher olaf y mis, 9yb - 1yh.

Pris: Am ddim (tal arferol ar gyfer mynediad i lwybrau natur y warchodfa).

Hoffai RSPB Cymru ddiolch i'r rhai sy'n cefnogi, gyda'u rhoddion hael, gwarchodfa natur a chyfleusterau ymwelwyr RSPB Conwy, gan gynnwys Ystâd y Goron, Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones, Amgylchedd Cymru, Tesco Plc, Cyngor Tref Conwy a Grŵp Cymorth RSPB Conwy.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654

Arhoswch gyda ni
www.rspb.org.uk/conwy
conwy@rspb.org.uk
01492 584091
Darganfyddwch ni ar Facebook
Dilynwch ni ar Twitter
@rspbconwy #conwyconnections